Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Shingles immunisation programme toolkit for Healthcare Practitioners



## This document is designed to help healthcare practitioners plan their shingles immunisation programme.

Mae'r gwybodaeth hon ar gael yn Gymraeg. This information is available in Welsh.

## Check your knowledge: training and learning

- A high level of knowledge and a positive attitude to vaccination in healthcare staff are important for achieving and maintaining high vaccine uptake.
- Vaccinators must be confident, knowledgeable and up to date. National minimum standards and core curriculum for vaccination training are available to view here: **Immunisation training resources and events**



**The following training and awareness-raising resources are available:**

- Immunisation training information and a shingles vaccination programme slide set are provided on the **Immunisation training resources and events** webpage. A shingles eLearning module will be available here: **Immunisation eLearning - Public Health Wales**
- If you are a registrant new to immunising, you will need to complete the Immunisation programme for new immunisers, available here: **Immunisation eLearning - Public Health Wales** and the **Appendix A: Vaccinator competency assessment tool** (external site)
- Health Care Support Workers (HCSWs) with Level 3 Qualifications and Credit Framework (QCF) or equivalent, should be considered for vaccine administration training. They must also have at least two years' experience as an HCSW. Training for HCSWs is facilitated by Health Boards across Wales based on the **National Minimum Standards and Core Curriculum for Vaccination Training.** Those new to immunisation should receive comprehensive immunisation training, preferably through a formal foundation course. It should follow a framework that encourages supervised practice and support, along with robust assessments of competence using the **Appendix A: Vaccinator competency assessment tool** (external site)
- Read the **Shingles (herpes zoster): the green book** (external site) and **UKHSA Shingles vaccination: guidance for healthcare practitioners** (external site). **Note:** Policy in England differs from Wales regarding the opportunistic offer of shingles vaccination. Please keep this in mind while referring to this document.

- Read the Welsh Health Circulars:

  **- Expansion of shingles immunisation for severely immunosuppressed people aged 18 to 49 (WHC/2025/028)** (external site)

  **- Changes to shingles vaccinations (from September 2023) (WHC/2023/024)** (external site)

- Read the JCVI statement: **Shingles (herpes zoster) vaccination programme [November 2024]** (external site)

- Share learning with all those involved in the programme, including reception staff booking appointments. Consider using the **national shingles slide set** to run a training and information session for colleagues.

## Clinical resources

Bookmark the following useful websites so you can refer to them quickly if needed:

- **Shingles (herpes zoster): the green book** (external site)

- **Shingles: Information for health professionals - Public Health Wales**

- **Shingles: Frequently asked questions - Public Health Wales (sharepoint.com)**

- **NHS Wales shingles vaccination programme Visual aid for Healthcare Professionals**

- UKHSA **Shingles vaccination: guidance for healthcare practitioners** (external site). **Note:** Policy in England differs from that in Wales regarding the opportunistic offer of shingles vaccination. Please keep this in mind while referring to this document.

- **Health Board vaccine team contacts**

## Other clinical resources required

- **Patient Group Direction (PGD) / Patient Specific Direction (PSD):** An appropriately authorised local health board PGD for Shingrix® is required. Alternatively, a PSD prepared by a prescriber is needed if non-registered staff are administering the vaccine or if the patient is outside the remit of a PGD.

## Order or download your *free* resources

**Free** patient resources are available on our **Health Information Resources page** including:

- **Shingles eligibility poster**

- **Shingles vaccination leaflet**









Professional resources are available on the **Shingles: Information for health professionals - Public Health Wales** webpage including:

- **NHS Wales shingles vaccination programme Visual aid for Healthcare Professionals**

- **Shingles invitation letter template**



**Shingles infection is not related to season, but it is related to age and immunocompetence - so don't let your patients wait.**

# Plan your programme

**Remember, the shingles vaccine can be offered all year round.**

Plan to offer the vaccine to:

- Patients turning 65 or 70 years old - within 12 weeks of their birthday.
- Severely immunosuppressed individuals aged 18 and over - within 12 weeks of diagnosis.
- Individuals who were previously eligible prior to 1 September 2023 (aged 70 – 79 years) remain eligible until they turn 80 years old.
- Where an individual has already reached or passed the age of 65 but is not yet 80 (up until 2028), general practices may offer opportunistic vaccination if operationally possible.

# Actions

- Identify eligible patients who have not previously received a shingles vaccine:
  - Those turning 65 and 70 years of age during each month (using search e.g. Audit+) including housebound patients and those in care homes.
  - Those severely immunosuppressed individuals aged 18 years and over.
- Ensure staff have received appropriate training for administering the shingles vaccine and have been assessed using: **Appendix A: Vaccinator competency assessment tool** (external site)
- Ensure current in-date authorised PGDs are available for registrants.
- Where non-registered staff are administering the vaccine, a prescriber should assess and prepare a PSD for legal authorisation, and in instances where the patient is outside the remit of a PGD.
- Invite patients within 12 weeks of becoming eligible using a robust call/recall as directed in the **WHC/2023/024** (external site). There should be three attempts to contact eligible patients - these can be calls, emails, text messages or written invitations. At least one must be a written invitation. Shingles invitation template letters are available **here** under the *'clinical resources and information'* section.
- Schedule or discuss the second dose appointment with the patient when the first dose of Shingrix® is given.
- Flag eligible patients on the system to promote opportunistic vaccination (for example on patient request, at chronic disease clinics, routine appointments).
- Each month/quarter, update your list of patients still eligible and feedback progress made at practice meetings.
- Remember to add your requirement for shingles vaccine in with your childhood vaccine order through ImmForm. Aim to hold no more than 2 weeks' worth of stock.
- An All Wales, Health Board, Local Authority and GP uptake calculation dashboard can be found **here** (the dashboard data can be exported to Excel by clicking on the Download button at the top right of the dashboard and selecting Crosstab).
- Celebrate your success: share initiatives you have used to optimise uptake with your **Local Health Board** Senior Nurse (Immunisation and vaccination) or Immunisation Co-ordinator.

**Remind patients that the Shingles vaccine is safe and effective and will help offer them protection, allowing them to enjoy life.**





Version 3 | October 2025
© Public Health Wales NHS Trust with acknowledgement to UK Health Security Agency

## Cynlluniwch eich rhaglen

**Cofiwch, gellir cynnig brechlyn rhag yr eryr drwy gydol y flwyddyn.**


Cynlluniwch gynnig y brechlyn i'r canlynol:

- Cleifion sy'n troi'n 65 neu'n 70 oed - o fewn 12 wythnos i'w pen-blwydd.
- Unigolion 18 oed a hŷn sy'n imiwnoataliedig iawn - o fewn 12 wythnos i'r diagnosis.
- Mae unigolion a oedd yn gymwys cyn 1 Medi 2023 (70 – 79 oed) yn parhau i fod yn gymwys nes iddynt droi'n 80 oed.
- Yn achos unigolion 65 oed a hŷn nad ydynt eto wedi cyrraedd 80 oed (hyd at 2028), gall practisiau meddygon teulu fanteisio ar gyfleoedd i gynnig brechiadau os yw'n bosibl yn weithredol.

## Camau Gweithredu

- Adnabod cleifion cymwys nad ydynt wedi cael brechlyn rhag yr eryr o'r blaen:
  - Y rhai sy'n troi'n 65 a 70 oed yn ystod pob mis (trwy ddefnyddio cyfleuster chwilio e.e. Audit+) yn cynnwys cleifion sy'n gaeth i'w cartrefi a'r rhai mewn cartrefi gofal.
  - Unigolion sy'n imiwnoataliedig iawn sy'n 18 oed a hŷn.
- Sicrhau bod staff wedi cael hyfforddiant priodol ar gyfer rhoi'r brechlyn rhag yr eryr ac wedi cael eu hasesu trwy ddefnyddio: **Atodiad A: Offeryn asesu cymhwysedd imiwneiddwyr** (safle allanol, Saesneg yn unig)
- Gwnewch yn siŵr fod Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion awdurdodedig cyfredol ar gael i'r rhai sydd wedi cofrestru.
- Pan fydd staff heb eu cofrestru yn rhoi'r brechlyn, dylai presgripsiynydd asesu a pharatoi Cyfarwyddyd Penodol i Gleifion i'w awdurdodi'n gyfreithlon ac mewn achosion lle mae'r claf y tu allan i gylch gwaith Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion.
- Dylid gwahodd cleifion o fewn 12 wythnos iddynt ddod yn gymwys trwy ddefnyddio system galw ac ailalw cadarn fel y cyfarwyddir yn **WHC/2023/024** (safle allanol). Dylid gwneud tair ymgais i gysylltu â chleifion cymwys - gellir defnyddio galwadau ffôn, negeseuon e-bost, negeseuon testun neu wahoddiadau ysgrifenedig. Rhaid anfon o leiaf un gwahoddiad ysgrifenedig. Mae llythyrau templed gwahoddiad i gael brechlyn rhag yr eryr ar gael **yma** o dan yr adran *'adnoddau a gwybodaeth glinigol.'*
- Dylid trefnu neu drafod yr apwyntiad i gael yr ail ddos gyda'r claf pan roddir y dos cyntaf o Shingrix®.
- Dylid adnabod cleifion cymwys ar y system i hyrwyddo manteisio ar gyfleoedd i frechu (er enghraifft ar gais cleifion, mewn clinigau clefydau cronig, neu apwyntiadau arferol).
- Bob mis/chwarter, diweddarwch eich rhestr o gleifion sy'n dal yn gymwys a rhowch adborth mewn cyfarfodydd practis ar y cynnydd a wnaed.
- Cofiwch ychwanegu eich gofyniad am frechlyn rhag yr eryr at eich archeb brechlynnau plentyndod trwy ImmForm. Ceisiwch gadw dim mwy na gwerth pythefnos o stoc.
- Gellir mynd at y dangosfwrdd cyfrifo niferoedd ar gyfer Cymru Gyfan, Byrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol a Meddygon Teulu **yma** (Saesneg yn unig). (Gellir allforio data'r dasbwrdd i Excel trwy glicio ar y botwm Lawrlwytho ar y top dde o'r dasbwrdd a dewis Crosstab).
- Dathlwch eich llwyddiant: rhannwch fentrau yr ydych wedi'u defnyddio i wneud y mwyaf o'r nifer sy'n manteisio ar gael eu brechu gydag Uwch Nyrs (Imiwneiddio a brechu) / Cydlynydd Imiwneiddio eich **Bwrdd Iechyd Lleol**

**Atgoffwch y cleifion bod y brechlyn rhag yr eryr yn ddiogel ac yn effeithiol ac y bydd yn helpu i gynnig amddiffyniad iddynt, gan ganiatáu iddynt fwynhau bywyd.**





Fersiwn 3 | Hydref 2025
© Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (gyda chydnabyddiaeth i Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU)

- Darllenwch **Yr Eryr (herpes zoster): y llyfr gwyrdd** (safle allanol, Saesneg yn unig) ac **Arweiniad ar Frechu Yr Eryr yr UKHSA: arweiniad i ymarferwyr gofal iechyd** (safle allanol, Saesneg yn unig). **Noder:** Mae'r polisi yn Lloegr yn wahanol i Gymru o ran manteisio ar gyfleoedd i gynnig brechu rhag yr eryr. Cadwch hyn mewn cof wrth gyfeirio at y ddogfen hon.

- Darllenwch Gylchlythyrau Iechyd Cymru:

  - **Ehangu'r rhaglen imiwneiddio rhag yr eryr i bobl rhwng 18 a 49 oed sy'n imiwnoataliedig iawn** (safle allanol)

  - **Newidiadau i frechiadau yn erbyn yr eryr (o fis Medi 2023) (WHC/2023/024)** (safle allanol)

- Darllenwch ddatganiad y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI): **Rhaglen frechu Yr Eryr [Tachwedd 2024]** (safle allanol, Saesneg yn unig)

- Rhannwch yr hyn a ddysgwyd gyda phawb sy'n ymwneud â'r rhaglen, yn cynnwys staff derbynfa sy'n trefnu apwyntiadau. Ystyriwch ddefnyddio'r **set sleidiau cenedlaethol ar gyfer yr eryr** i gynnal sesiwn hyfforddi a gwybodaeth i gydweithwyr.

## Adnoddau clinigol

Ychwanegwch y gwefannau defnyddiol canlynol at eich nodau tudalen er mwyn cyfeirio atynt yn gyflym os oes angen:

- **Yr Eryr (herpes zoster): y llyfr gwyrdd** (safle allanol, Saesneg yn unig)
- **Yr Eryr: Gwybodaeth i weithwyr iechyd proffesiynol - Iechyd Cyhoeddus Cymru**
- **Yr Eryr: Cwestiynau a ofynnir yn aml - Iechyd Cyhoeddus Cymru (sharepoint.com)** (Saesneg yn unig)
- **Rhaglen frechu rhag yr eryr GIG Cymru Cymorth gweledol i Weithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol**
- **Arweiniad ar Frechu Yr Eryr yr UKHSA: arweiniad i ymarferwyr gofal iechyd** (safle allanol, Saesneg yn unig). **Noder:** Mae'r polisi yn Lloegr yn wahanol i Gymru o ran manteisio ar gyfleoedd i gynnig brechu rhag yr eryr. Cadwch hyn mewn cof wrth gyfeirio at y ddogfen hon.
- **Cysylltiadau Tîm Brechu'r Bwrdd Iechyd**

## Adnoddau clinigol angenrheidiol eraill

- **Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion (PGD) / Cyfarwyddyd Penodol i Gleifion (PSD):** Mae angen PGD bwrdd iechyd lleol a awdurdodwyd yn briodol ar gyfer Shingrix®. Fel arall, mae angen Cyfarwyddyd Penodol i Gleifion (PSD) a baratowyd gan bresgripsiynydd os yw staff sydd heb gofrestru yn rhoi'r brechlyn neu os yw'r claf y tu allan i gylch gwaith PGD.

## Archebwch neu lawrlwythwch eich adnoddau *rhad ac am ddim*

Mae adnoddau ar gael **am ddim** i gleifion ar ein tudalen **Adnoddau Gwybodaeth Iechyd** gan gynnwys:

- **Poster cymhwysedd yr eryr**
- **Taflen brechiad yr eryr**








Mae adnoddau proffesiynol ar gael ar **Yr Eryr: Gwybodaeth i weithwyr iechyd proffesiynol - tudalen we Iechyd Cyhoeddus Cymru** gan gynnwys:

- **Rhaglen frechu rhag yr eryr GIG Cymru Cymorth gweledol i Weithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol**
- **Templedi llythyrau gwahoddiad brechiad yr eryr**






**Nid yw haint yr eryr yn gysylltiedig â thymor; mae'n gysylltiedig ag oedran a gweithrediad systemau imiwnedd pobl, felly peidiwch â gadael i'ch cleifion aros.**

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales



# Pecyn cymorth y rhaglen imiwneiddio rhag yr eryr ar gyfer Ymarferwyr Gofal Iechyd

## Diben y ddogfen hon yw helpu ymarferwyr gofal iechyd i gynllunio eu rhaglenni imiwneiddio rhag yr eryr.

## Gwiriwch eich gwybodaeth: hyfforddiant a dysgu

- Mae lefel uchel o wybodaeth ac agwedd gadarnhaol tuag at frechu ymhlith staff gofal iechyd yn bwysig ar gyfer cyflawni cyfraddau brechu uchel a'u cynnal.
- Rhaid i frechwyr fod yn hyderus, yn wybodus a meddu ar yr wybodaeth ddiweddaraf. Mae safonau gofynnol cenedlaethol a chwricwlwm craidd ar gyfer hyfforddiant brechu ar gael yma: **Adnoddau a digwyddiadau hyfforddiant imiwneiddio**



**Mae'r adnoddau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth canlynol ar gael:**

- Mae gwybodaeth am hyfforddiant imiwneiddio a set sleidiau ar y rhaglen frechu rhag yr eryr ar gael ar y dudalen we **Adnoddau a digwyddiadau hyfforddiant imiwneiddio**. Bydd modiwl e-ddysgu ar yr eryr ar gael yma: **e-Ddysgu imiwneiddio - Iechyd Cyhoeddus Cymru**
- Os ydych newydd gofrestru i imiwneiddio bydd angen i chi gwblhau'r rhaglen Imiwneiddio ar gyfer imiwneiddwyr newydd, sydd ar gael yma: **e-Ddysgu imiwneiddio - Iechyd Cyhoeddus Cymru** ac **Atodiad A: Offeryn asesu cymhwysedd imiwneiddwyr** (safle allanol, Saesneg yn unig)
- Dylid ystyried Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd sydd â chymhwyster Lefel 3 y Fframwaith Credydau a Chymwysterau (QCF), neu gyfwerth, ar gyfer gwneud hyfforddiant i roi brechlynnau. Rhaid bod ganddynt o leiaf ddwy flynedd o brofiad fel Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd. Mae hyfforddiant i Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd yn cael ei hwyluso gan Fyrddau Iechyd ledled Cymru yn seiliedig ar y **Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r Cwricwlwm Craidd ar gyfer Hyfforddiant Brechu**. Dylai'r rhai sy'n newydd i imiwneiddio gael hyfforddiant imiwneiddio cynhwysfawr, trwy gwrs sylfaen ffurfiol yn ddelfrydol. Dylai'r hyfforddiant ddilyn fframwaith sy'n annog ymarfer dan oruchwyliaeth a chefnogaeth, ynghyd ag asesiadau cadarn o gymhwysedd trwy ddefnyddio **Atodiad A: Offeryn asesu cymhwysedd imiwneiddwyr** (safle allanol, Saesneg yn unig).